PET(4)-03-12 p8a

## P-03-085 Meddygfeydd yn Sir y Fflint

### Geiriad y ddeiseb

Rydym ni feddygon ym Meddygfa'r Laurels, Meddygfa Eyton Place a Chanolfan Feddygol Allt Goch yn rhwystredig (fel yr ydych chi mae'n siwr) oherwydd yr anawsterau a gawn wrth geisio cynnig digon o apwyntiadau ar gyfer ein cleifion.

Fel y gwyddoch, rydym wedi'n cyfyngu'n llwyr gan faint ein hadeilad ac mae gwir angen symud i safle mwy – mewn Canolfan Gofal Sylfaenol newydd os oes modd.

Mae'r cynnydd yn hyn o beth wedi dod i ben yn dilyn penodiad diweddar y Gweinidog Iechyd newydd a hoffem ddod â'n pryderon i'w sylw.

Gofynnwn i chi arwyddo'r ddeiseb hon i gefnogi'n hymdrechion i brysuro'r broses hon;

"Fel cleifion mewn Meddygfa yn Sir y Fflint, gofynnwn i'n Haelod Cynulliad, Mrs Sandy Mewies, roi pwysau ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu Canolfan Gofal Sylfaenol newydd ar fyrder"

**Trefnwyd y ddeiseb gan:** Gillian Robinson

**Ystyriwyd gan y Pwyllgor am y tro cyntaf:** 21 Chwefror 2008

**Nifer y llofnodion:** 412